**Dinas a Sir Abertawe**

# Nodiadau'r Gweithgor Craffu – Cydlyniant Cymunedol a Throseddau Casineb

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 14 Tachwedd 2017 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol:** Y Cynghorydd E J King (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| L S Gibbard | Y V Jardine | W G Lewis |
| I E Mann | S Pritchard | M Sykes |
| G J Tanner | L V Walton | |

**Hefyd yn bresenno**

| | |
|---|---|
| Duncan Cahill | Heddlu De Cymru |
| William Evans | Aelod y Cabinet – Cymunedau Cryfach |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |
| Paul Thomas | Rheolwr Integreiddio a Phartneriaeth Gymunedol |
| Jane Whitmore | Rheolwr Partneriaeth a Chomisiynu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): L G Thomas

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

2 **Trosolwg o Gydlyniant Cymunedol a Throseddau Casineb**

Roedd Paul Thomas, Rheolwr Integreiddio a Phartneriaeth Gymunedol, yn bresennol i gyflwyno'r adroddiad. Roedd y Cynghorydd Will Evans, Jane Whitmore a Duncan Cahill o Heddlu De Cymru hefyd yn bresennol i ateb cwestiynau.

Trafodwyd y prif faterion canlynol:

- Mae hwn yn faes gwaith sy'n datblygu.
- Mae ymagwedd bartneriaeth yn bwysig iawn.
- Mae problem o ran sut rydym yn mynd i'r afael â phroblemau ac yn dod â chymunedau ynghyd.
- Mae'r gweithgor yn bryderus o ran sut yr adroddir am droseddau casineb yn y cyfryngau ac ar gyfryngau cymdeithasol a hoffai gael gweithio agosach gyda phapurau newydd lleol. Cafwyd gwybod bod y berthynas â'r cyfryngau'n

gwella'n lleol, ond nid oes llawer y gallwn ei wneud yn genedlaethol. Anodd iawn i reoleiddio cyfryngau cymdeithasol. Mae addysg yn allweddol i hyn.
- Mae'r heddlu yn edrych ar ffyrdd gwahanol o ddarganfod dangosyddion tyndra ar gyfer troseddau casineb er mwyn iddyn nhw allu deall yr hyn sy'n digwydd. Gall cynghorwyr fwydo i'r broses hon drwy gysylltu â Swyddogion Cymunedol yr Heddlu (PCO). Mae angen ymgymryd â darn o waith er mwyn cysylltu'r wybodaeth a dderbynnir.
- Roedd gan y gweithgor bryderon am PCO yn gweithio mewn ardaloedd lle nad yw pobl yn gwybod pwy ydyn nhw a beth yw eu rôl.
- Mae Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid i 7 sefydliad. Hoffai'r gweithgor wybod pa mor effeithiol yw'r sefydliadau hyn. Nid yw'n ymddangos bod cyllid yn treiddio i lawr i lefel leol.
- Teimla'r gweithgor nad oes digon o hyfforddiant ar gyfer cydlyniant cymunedol ac nid yw sesiynau hyfforddi awr a hanner yn ddigon i gwmpasu popeth.
- Mae'r cyngor yn darparu hyfforddiant ar fanylion ond mewn perthynas â chydlyniant cymunedol, awgryma'r gweithgor y dylid edrych eto ar ein hyfforddiant cydraddoldeb. Bydd y gweithgor yn rhannu'r profiad sydd ganddo o feysydd eraill â swyddogion perthnasol.

## 3 Trafodaeth a Chasgliadau

Trafododd y panel gynnydd a daethpwyd i'r casgliadau canlynol:

- Mae Strategaeth Troseddau Casineb yn fframwaith eithaf cadarn ac mae'n strategaeth dda.
- Mae llawer o waith i'w wneud gyda chydlyniant cymunedol gan nad oes cyfeiriad neu strategaeth drosgynnol.
- Mae diffiniad Abertawe o gydlyniant cymunedol yn canolbwyntio'n ormodol ar yr elfen drosedd. Hoffai'r gweithgor weld cydbwysedd gwell.
- Bydd y gweithgor yn argymell i Bwyllgor y Rhaglen Graffu y cynhelir cyfarfod arall mewn chwe mis i ganolbwyntio ar gydlyniant cymunedol gan ei fod yn bryderus ynghylch diffyg cynllun/strategaeth ar gyfer yr agwedd hon. Byddai'n ddefnyddiol i Gydlynydd Cydlyniant Cymunedol ddod i'r cyfarfod.
- Teimla'r gweithgor fod cydlyniant cymunedol yn bwnc am ymchwiliad craffu yn y dyfodol neu'n fater y mae angen i Bwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi perthnasol ei drafod.

Yn dilyn y cyfarfod hwn:

- Bydd cynullydd y gweithgor yn anfon llythyr at Aelod y Cabinet gan grynhoi'r drafodaeth ac yn amlinellu barn ac argymhellion y gweithgor.

The meeting ended at 5.45 pm